# Gwasanaethau Anabledd Prifysgol Bangor

Cytundeb Ymddygiad Cŵn Cymorth

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cynhwysol ac mae'n cydnabod y bydd angen i rai myfyrwyr ddod â chi cymorth i'r brifysgol. Pwrpas y cytundeb hwn yw galluogi perchnogion cŵn cymorth i roi sicrwydd i'r brifysgol ynglŷn â hyfforddiant, ymddygiad a lles eu ci cymorth.

Rwyf wedi darllen a deall **Datganiad Safbwynt Prifysgol Bangor ar Gŵn Cymorth ac Anifeiliaid Therapi/Anifeiliaid Cefnogaeth Emosiynol** ac rwy'n cytuno i'r canlynol:

- Byddaf yn darparu manylion ysgrifenedig am hyfforddiant fy nghi cymorth a lle bo hynny'n berthnasol, manylion cofrestru gydag Assistance Dogs UK, Assistance Dogs International neu sefydliad arall i'r Gwasanaethau Anabledd.
- Os nad yw fy nghi cymorth wedi ei gofrestru gydag aelod-sefydliad o Assistance Dogs UK neu Assistance Dogs International, byddaf yn darparu llythyr i'r Gwasanaethau Anabledd gan fy meddyg teulu yn nodi fy mod angen i'm ci cymorth fynd gyda mi i'r brifysgol.
- Byddaf yn sicrhau bod gennyf yswiriant anifeiliaid anwes sydd ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Os nad yw fy Nghi Cymorth wedi'i gofrestru gyda sefydliad sy'n aelod o Assistance Dogs UK neu Assistance Dogs International, byddaf yn darparu Gwasanaethau Anabledd â thystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus bob blwyddyn.
- Byddaf yn sicrhau bod fy anifail yn iach, ei fod yn cael brechiadau a thriniaeth chwain a llyngyr yn rheolaidd fel sy'n briodol. Byddaf yn cymryd cyngor gan filfeddyg ynglŷn â'i les.
- Fi fydd yn gyfrifol am fy nghi cymorth bob amser.
- Rwy'n cydnabod bod rhaid i berchnogion cŵn cymorth gymryd cyfrifoldeb am lanhau baw eu cŵn i'r graddau y gallant ac, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosib, dylid defnyddio'r man ysgarthu ddynodedig a nodwyd gan y brifysgol. Os oes gennyf nam difrifol ar fy ngolwg, nid yw'n ofynnol i mi lanhau ar ôl fy nghi tywys ond rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i osgoi baw cŵn ar y campws.
- Ni fyddaf yn gadael fy nghi cymorth ar ei ben ei hun ar unrhyw adeg pan fydd ar dir y brifysgol.
- Byddaf yn sicrhau bod fy nghi ar dennyn bob amser pan fydd ar dir y brifysgol.
- Byddaf yn sicrhau bod fy anifail yn hawdd ei adnabod fel ci cymorth pan fydd wrth ei waith.
- Rwy'n deall y bydd y Gwasanaethau Anabledd yn hysbysu'r ysgol/ysgolion academaidd ac adrannau am fy nghi cymorth trwy fy nghynllun cefnogi dysgu personol.

- Os bydd gennyf unrhyw sesiynau labordy, sesiynau ymarferol neu weithgareddau oddi ar y campws, yn cynnwys gwaith maes a lleoliadau, byddaf yn trafod y manylion gyda'r Gwasanaethau Anabledd a'm ysgol academaidd.
- Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau bod fy anifail yn eistedd yn dawel wrth ymyl fy nghadair pan fydd mewn darlithoedd, seminarau neu gyfarfodydd gyda mi.
- Byddaf yn hysbysu'r Gwasanaethau Anabledd mewn da bryd os gwneir unrhyw gwynion, yn cynnwys sylwadau negyddol, am fy anifail.
- Os byddaf yn ymwybodol bod rhywun wedi cynhyrfu/yn bryderus/yn ofni fy anifail mewn darlith/seminar/gweithdy/labordy, byddaf yn siarad â hwy ac yn ceisio sicrhau na fyddaf yn eistedd yn agos atynt gyda fy nghi.
- Os bydd fy nghi yn camymddwyn trwy gyfarth neu beidio ag eistedd yn ei unfan, byddaf yn sicrhau na fydd hynny'n parhau. Gallai hynny olygu gorfod gadael yr ystafell.
- Os caf wybod bod myfyrwyr neu aelod staff ag alergedd i'm ci, byddaf yn trafod hyn â'r Gwasanaethau Anabledd.
- Os bydd fy nghi yn difrodi unrhyw eiddo yn y brifysgol, byddaf yn talu am unrhyw waith trwsio/eitemau newydd lle bo'n rhesymol imi wneud hynny.
- Byddaf yn sicrhau bod fy anifail wedi ei hyfforddi i wybod ble gall ysgarthu.

Rwy'n deall, os na allaf gydymffurfio â'r rheolau sylfaenol hyn neu os yw fy anifail yn tarfu ar fyfyrwyr ac aelodau staff eraill mewn ffordd na ellir ei reoli, caiff y rheolau hyn eu hadolygu ac os na ellir dod o hyd i atebion amgen, efallai na fyddaf yn gallu dod â'm ci cymorth i mewn i adeiladau a chyfleusterau'r brifysgol.

Llofnod:

Dyddiad:

## Rhestr wirio

Cyn dychwelyd y ffurflen hon, cofiwch sicrhau eich bod wedi gwneud y canlynol:

☐ Llofnodi'r datganiad a nodi'r dyddiad

☐ Amgau **copïau o'r holl dystiolaeth y gofynnwyd amdani i gefnogi eich cais.**

☐ Cadw'r copi gwreiddiol o'ch tystiolaeth.

## Nodiadau'r cynghorydd:

Dyddiad yr adolygiad blynyddol cyntaf: